Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Comins Coch

**Comins Coch**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3BQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Comins Coch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Comins Coch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Pontio 2 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 139 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 124 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 12.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 13.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/11/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cadarnhaol ac ethos cynhwysol, gan ganolbwyntio ar ddysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r amgylchedd anogol hwn, sy'n ganolog i'w strategaethau gwella, yn arwain at ymddygiad a brwdfrydedd rhagorol ar gyfer dysgu ymhlith disgyblion. Mae parodrwydd arweinwyr i wella arferion trwy werthusiadau rheolaidd yn arwain at brosesau gwella trefnus.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn dda ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn drylwyr, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro effeithiol. Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn effeithiol, gan ystyried baich gwaith a lles staff yn synhwyrol. Mae cyfleoedd dysgu, fel diwrnodau entrepreneuraidd, yn hyrwyddo dealltwriaeth gymunedol yn llwyddiannus, ac mae grwpiau llais y disgybl yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol a chodi arian i elusennau yn gadarnhaol.

Mae staff a disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith rhagorol, ac mae athrawon yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau'n synhwyrol. Maent yn rhoi adborth i helpu disgyblion i ddeall tasgau a gwella, er nad yw'r adborth hwn bob amser yn herio ac yn nodi'r camau nesaf yn nysgu disgyblion unigol yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra addas, ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr, ond pan mae'r addysgu'n llai heriol, nid yw dysgu'r disgyblion mor effeithiol.

Mae disgyblion yn datblygu medrau llafaredd a darllen cryf, gan ddod yn ddarllenwyr medrus sy'n ymgysylltu'n ddwfn â thestunau. Maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ddibenion amrywiol ac yn defnyddio medrau rhifedd a digidol effeithiol yn hyderus. Mae gan ddisgyblion agweddau eithriadol o dda tuag at ddysgu Cymraeg ac maent yn defnyddio'r iaith yn hyderus, sy'n gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol ac yn cynnwys adnoddau da, er nad yw'r ddarpariaeth yn yr awyr agored wedi'i datblygu'n ddigon da i gynorthwyo disgyblion i gymhwyso'u medrau mewn gweithgareddau dysgu buddiol. Mae'r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu eang, sy'n adeiladu ar fedrau a addysgwyd yn y gorffennol yn effeithiol. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol, emosiynol a chreadigol gwerthfawr, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol effeithiol, empathi a pharch at bobl eraill.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod athrawon yn rheoli amser yn effeithiol mewn gwersi i herio a nodi'n gywir y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

A2 Gwella ansawdd a darpariaeth y profiadau dysgu yn yr awyr agored

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i greu diwylliant ac ethos cynhwysol sy'n canolbwyntio ar ddysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae creu'r amgylchedd dysgu cadarnhaol hwn yn elfen allweddol o strategaethau gwella'r arweinyddiaeth. Trwy gyfleu eu gweledigaeth yn glir i staff a disgyblion, mae arweinwyr yn canolbwyntio'n arbennig o dda ar les disgyblion, gan fod darpariaeth effeithiol o ran gofal, cymorth ac arweiniad. O ganlyniad, mae lles bron pob un o'r disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Caiff ei gefnogi gan amgylchedd anogol sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol yn fuddiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad rhagorol. Maent yn groesawgar ag ymwelwyr, ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau eithriadol o dda tuag at ddysgu, maent yn gwrando'n astud, ac yn dangos balchder yn eu gwaith.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn rheolaidd yn bwrpasol. Maent yn rhoi prosesau gwella trefnus ar waith sy'n arwain at welliannau cynaledig dros gyfnod. Er enghraifft, mae datblygiadau diweddar yn cynnwys cyfoethogi'r ddarpariaeth ddigidol ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth i reoli perfformiad staff. Maent yn darparu hyfforddiant buddiol i fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella, fel technegau galw i gof a holi. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn gweithredu strategaethau i hyrwyddo diogelwch ar-lein disgyblion a mynd i'r afael ag anghenion dysgu penodol disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn drylwyr, fel hyrwyddo medrau Cymraeg, sy'n gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol rôl hanfodol mewn cefnogi a herio arweinyddiaeth yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau defnydd effeithlon o'r gyllideb, sy'n cynnwys sefydlu, staffio a darparu adnoddau ar gyfer dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg newydd. Yn ychwanegol, mae'r corff llywodraethol, ynghyd â staff, yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Maent yn cymryd rhan mewn cylch monitro cynlluniedig sy'n dwyn athrawon i gyfrif yn effeithiol am effaith eu gwaith.

Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol i ddiwallu anghenion disgyblion yn dda. Maent yn ystyried baich gwaith a lles staff yn ofalus, gan

ddatblygu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni, ysgolion partner, cyrff allanol, a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau fel diwrnodau '999' entrepreneuraidd, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o wahanol yrfaoedd yn y byd gwaith o fewn eu cymuned. Mae staff yn sicrhau bod grwpiau llais y disgybl yn effeithio ar y rhan fwyaf o agweddau ar fywyd ysgol, y gymuned a'r byd ehangach yn bwrpasol, sy'n cynnwys codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Maent yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael yn synhwyrol i sicrhau bod trefniadau pontio rhwng dosbarthiadau a darparwyr eraill yn galluogi disgyblion ag ADY i fanteisio ar gymorth yn effeithiol. Mae cyfarfodydd proffesiynol rheolaidd gyda disgyblion, rhieni, a gofalwyr yn helpu creu pecynnau cymorth unigol i olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae staff yn cydweithio'n dda ag asiantaethau allanol, gan ffurfio partneriaethau da â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ac addysg, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch ar y ddwy ochr rhwng staff a disgyblion yn rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn gwrando'n astud ar athrawon. Mae disgyblion hŷn yn gofyn cwestiynau ystyriol ac yn cyfrannu'n huawdl at drafodaethau dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafaredd cryf, gan fynegi eu barn ac adrodd ffeithiau yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn meddu ar eirfa aeddfed, sy'n cyfoethogi eu cyfraniadau llafar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda, gan ddod yn ddarllenwyr medrus sy'n ymgysylltu'n ddwfn â thestunau ac yn darllen â mynegiant. Er enghraifft, erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn darllen yn rhugl a gallant lithrddarllen a sganio am wybodaeth yn effeithlon tra'n ymchwilio i gael gwybodaeth am fywyd gwaith plentyn mewn pwll glo yn Oes Fictoria. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ddibenion amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn creu ysgrifennu o ansawdd uchel mewn gwahanol genres, gan gynllunio'u gwaith yn effeithiol a gwella'u cyfraniadau trwy olygu ac ailddrafftio gofalus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau rhifedd effeithiol ac yn eu defnyddio'n bwrpasol mewn gweithgareddau dilys. Er enghraifft, maent yn cymharu gwahanol arian cyfred gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu medrau digidol yn effeithiol, yn rheoli teganau rhaglenadwy ac yn defnyddio rhaglenni dysgu addysgol yn annibynnol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio cronfeydd data i storio data, creu siartiau, ac esbonio'u canfyddiadau yn synhwyrol.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg, gan ddatblygu medrau cyfathrebu cryf o oedran cynnar. Wrth iddynt wneud cynnydd, mae disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gweithgareddau amrywiol, gan gyfrannu'n huawdl at drafodaethau dosbarth yn Gymraeg.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cynnwys disgyblion mewn cynllunio'u dysgu yn synhwyrol. Mae technegau holi effeithiol yn dyfnhau dysgu disgyblion yn bwrpasol, gan eu helpu i alw gwybodaeth flaenorol i gof a chreu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn creu ystafelloedd dosbarth ysgogol, difyr ac sy'n cynnwys adnoddau da, sy'n annog pob un o'r

disgyblion i ddysgu'n gynhyrchiol. Mae'r ddarpariaeth awyr agored yn llai effeithiol, ac nid yw'n targedu datblygiad a dilyniant medrau disgyblion yn ddigon da.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gydweithio a rhannu syniadau, gan arfogi disgyblion â medrau i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd amrywiol, fel cyflwyniadau digidol ar arbed ynni. Mae athrawon yn darparu adborth defnyddiol, gan alluogi disgyblion i ddeall tasgau'n well a gwella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu disgyblion unigol yn gywir bob amser. Mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau addysgu yn symud y dysgu ymlaen ar gyflymdra priodol, gyda gweithgareddau difyr sy'n cynnwys disgyblion yn bwrpasol. Pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae cyflymdra'r dysgu yn arafach, ac nid yw lefel yr her bob amser yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion yn ddigon da.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ehangder a dyfnder da o ran dysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae cynllunio athrawon yn adeiladu ar fedrau a addysgwyd yn y gorffennol, gan alluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu dros gyfnod. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach, trwy astudio gorsafoedd pŵer lleol a dathlu gwahanol ddiwylliannau trwy themâu rhyngwladol yn frwdfrydig.

Mae athrawon yn darparu cefnogaeth gref ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion gan feithrin empathi, myfyrdod a pharch yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad creadigol disgyblion yn dda, ac mae artistiaid gwadd yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon i gyfoethogi medrau artistig disgyblion. Caiff ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol eu hyrwyddo'n effeithiol. Er enghraifft, erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn deall manteision ac anfanteision ffynonellau ynni adnewyddadwy ac ynni na ellir ei adnewyddu, yn gwerthfawrogi gwahanol gredoau, ac yn dangos goddefgarwch ac ystyriaeth am bobl eraill.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/01/2025